Dengys yr ymchwil yma fod gan nifer arwyddocaol o bobl yng Nghymru sgiliau llythrennedd a rhifogrwydd gweddol gyfyngedig. Fel hyn y mae hi ym mhob grŵp oedran, o 16 i 64. Daethpwyd o hyd i rai o'r sgoriau isaf yn y grŵp oedran ieuengaf, o 16 i 18. Mae'r ymchwil yn rhoi darlun llwm o'r berthynas rhwng sgiliau sylfaenol gwael, diffyg cymwysterau a diweithdra. Nid oedd gan oddeutu dau draean o'r rheini gyda llythrennedd neu rifogrwydd gwael unrhyw gymwysterau o'u cymharu â chwarter o'r rheini gyda llythrennedd da ac un rhan o bump o'r rheini gyda rhifogrwydd da. Ymhlith dynion rhwng 19 a 24 roedd y rheini gyda llythrennedd gwael bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na'r rheini gyda llythrennedd da.

Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu'r rheidrwydd i ehangu cyrsiau drwy Gymru sydd yn rhoi cyfle i bobl wella eu sgiliau sylfaenol. Mae llythrennedd a rhifogrwydd da yn chwarae rhan sylfaenol yn yr hyder sydd yn ein hannog wrth i ni fynd i'r afael â gorchwylion bob dydd, yn y cartref. Yn y gwaith, mae swyddi yn gofyn am gymwysterau a sgiliau cynyddol. Hebddynt mae grŵp mawr o bobl yn cael ei wthio i'r cyrion. Dengys yr ymchwil yma, yn daer, bod angen i ni weithredu ar fyrder er mwyn codi safonau a sicrhau y gall pawb chwarae eu rhan gyflawn mewn cymdeithas.

Yr ydym yn ddiolchgar i Beaufort Research Ltd., wedi ei seilio yng Nghaerdydd, ac yn arbennig i Geoff Hiscocks, am gynnal yr arolwg yma ar ran yr Asiantaeth. Hoffem ddiolch yn ogystal i John Bynner a Samantha Parsons o City University. Fe wnaethon nhw ailgyfrifiaduro'r data a'i ddadansoddi mewn ffordd sydd yn gyson â'r ystod o arolygon eraill a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth ac yn seiliedig ar y set-ddata graddfa eang yn yr Astudiaeth Datblygiad Plant Cenedlaethol, a ddelir gan City University.

Er bod y data wedi cael ei ddarparu gan Beaufort Research Ltd a City University, mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi bod yn gyfrifol am ddehongli a phasio barn ar ganlyniadau'r arolwg.

Alan Wells OBE
Cyfarwyddwr, Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol

Cynnwys

Crynodeb	3
Cefndir	5
Yr arolwg	6
Y Gorchwylion Llythrennedd	7
Canfyddiadau	8
Y Gorchwylion Rhifogrwydd	16
Canfyddiadau	17
Prif ganfyddiadau	22
Canfyddiadau eraill	23
Oedran a rhyw	24
Statws cyflogaeth a dosbarth cymdeithasol	25
Cymwysterau	27
Amrywiadau rhanbarthol	28
Siaradwyr Cymraeg	31
Canlyniad	33
Nodyn methodolegol	34

© Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol
Commonwealth House, 1-19 New Oxford, Llundain WC1A 1NU

Cedwir pob hawlfraint. Ni chaniateir llungopio, recordio neu atgynhyrchu mewn unrhyw ddull arall unrhyw ran o'r cyhoeddiad yma, ei storio mewn system adferiad neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu gan unrhyw fodd electroneg neu fecanyddol heb ganiatâd blaenorol perchennog yr hawlfraint.

ISBN 1 85990 067 4

Stiwdio Cynllunio 21

Cyfleithwyd gan Elin Llwyd Morgan

Cyhoeddwyd Gorffennaf 1997

Crynodeb

- Cwmpasodd yr ymchwil sampl cynrychioladol o dros 2,000 o oedolion rhwng 16 a 64
- Cyflawnodd yr atebwyr 12 gorchwyl llythrennedd ac 8 gorchwyl rhifogrwydd yn cwmpasu gorchwylion bob dydd
- Roedd y rheini na roddodd ateb cywir mewn sillafu yn amrywio o 2% gyda'r geiriau hawsaf i 32% gyda geiriau mwy cymhleth
- Mewn darllen roedd gan 6% sgiliau isel iawn a 10% sgiliau isel
- Mewn rhifogrwydd roedd gan 15% sgiliau isel iawn a 29% sgiliau isel
- Daethpwyd o hyd i broblemau ym mhob grwp oedran. Roedd merched ieuengach a'r rheini rhwng 55 a 59 yn fwy tebygol o gael sgiliau darllen gwael. Roedd merched hyn a dynion yn eu hugeiniau cynnar yn fwy tebygol o gael sgiliau rhifogrwydd gwael
- Roedd yna berthynas gyson rhwng sgiliau sylfaenol gwael a diweithdra:
  - roedd 24% o ddynion rhwng 19 a 24 gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel yn ddi-waith o'i gymharu â 6% o'r rheini gyda sgiliau da
  - roedd 39% o ferched rhwng 19 a 24 gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel yn 'ddigyflog' o'i gymharu â 12% o'r rheini gyda sgiliau da

Roedd y rheini gyda sgiliau sylfaenol gwael yn fwy tebygol o fod wedi gadael ysgol yn 16 ac i fod heb gymwysterau:

- nid oedd gan ddau draean o ddynion a merched gyda sgiliau darllen isel ac isel iawn neu rifogrwydd isel iawn unrhyw gymwysterau o'u cymharu â chwarter o'r rheini gyda sgiliau darllen da ac un rhan o bump o'r rheini gyda sgiliau rhifogrwydd da
- nid oedd gan oddeutu 9 allan o 10 o ddynion a merched rhwng 45 a 54 gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel unrhyw gymwysterau ffurfiol – dwywaith y gyfran o'r rheini gyda sgiliau da

Roedd yna berthynas gyson rhwng sgiliau sylfaenol gwael a dosbarth cymdeithasol; roedd bron i hanner y dynion a'r merched gyda sgiliau sylfaenol gwael yn nosbarthiadau cymdeithasol Ch neu D

Crynodeb

- Pan ymgymrwyd â'r ymchwil roedd yna wyth o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru. Y rhai a ddangosodd y lefelau mwyaf o anhawster oedd Morgannwg Ganol a Gwent. Roedd y berthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a sgiliau sylfaenol gwael yn arwyddocaol, o fewn yr ardaloedd daearyddol gwahanol
- Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn llai tebygol o gael sgiliau darllen isel iawn ac isel na phobl sydd ddim yn siarad Cymraeg
- Byddai angen mwy o ddadansoddi manwl, gyda sampl mwy, er mwyn bod yn siwr o gydberthnasau eraill rhwng patrymau o lithrigrwydd iaith a sgiliau sylfaenol gwael
- Mae'r ymchwil yn tanlinellu'r pwysigrwydd o ehangu cyrsiau y gall rheini gyda sgiliau sylfaenol gwael wella eu llythrennedd a rhifogrwydd trwyddynt, a chael y cyfle i gyfranogi yn llawn mewn cymdeithas

Sgiliau sylfaenol – darllen, ysgrifennu a rhifogrwydd sylfaenol – yw'r sgiliau cynhaliol hollbwysig ar gyfer bywyd bob dydd a bywyd gwaith. Mae crap cadarn ar y sgiliau hyn wedi dod yn bwysicach mewn blynyddoedd diweddar.

Yr ydym yn diffinio sgiliau sylfaenol fel:

Y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg a defnyddio mathemateg ar lefel sydd yn angenrheidiol i weithredu a gwneud cynnydd yn y gwaith ac yng nghymdeithas yn gyffredinol.

Yng Nghymru mae sgiliau sylfaenol yn cynnwys y gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ar gyfer pobl y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt.

Mae sgiliau sylfaenol gwael yn effeithio unigolion yn eu bywyd bob dydd, ac yn cael effaith andwyol ar hyder. Mae yna hefyd gysylltiad cyson rhwng sgiliau sylfaenol gwael a diweithdra. Mae bron i 90% o swyddi yn gofyn am sgiliau cyfathrebu da, gan gynnwys darllen ac ysgrifennu; mae'r mwyafrif o swyddi yn gofyn am rywfaint o fathemateg sylfaenol. Mae sgiliau sylfaenol wedi dod yn bwysicach yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf oherwydd rheoliadau iechyd a diogelwch newydd a newidiadau mewn cyfundrefn waith. Mae swyddi sydd ddim angen sgiliau sylfaenol yn diflannu'n gyflym ac mae pobl sydd â sgiliau sylfaenol gwael yn debygol o brofi cyfnodau mynych a maith o ddiweithdra.[1]

Mae'n bwysig gwybod cymaint â phosibl am raddfa'r broblem a'i nodweddion. Ar gyfer y perwyl hwn yr ydym wedi comisiynu nifer o arolygon ledled Cymru a Lloegr. Mae'r rhain wedi sefydlu'r angen ymhlith pobl ifanc (21 oed)[2], chwe charfan oedran yn eu 20iau, 30au, 40au, 50au, 60au a 70au[3] cynnar, a Lleiafrifoedd Ieithyddol[4]. Mae'r arolygon hyn wedi cwmpasu Cymru a Lloegr fel un. Maent wedi bod yn gymharol fach o ran graddfa ac wedi bod yn gynrychioladol eang o rychwant y boblogaeth. Mae hi felly wedi bod yn anodd eu defnyddio er mwyn edrych mewn unrhyw fanylder ar Gymru ar ei phen ei hun, neu ar rannau o Loegr.

1. Roedd yr ymchwil yma, gan Sefydliad Astudiaethau'r Gweithwyr (Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth erbyn hyn), yn cynnwys arolwg o agweddau cyflogwyr mewn 73 ardal *TEC* yn cwmpasu 24,075 o gwmniau ac 1.3 miliwn o swyddi. Darganfu yr arolwg lawer iawn o anfodlonrwydd gyda sgiliau sylfaenol y gweithlu ymhlith cyflogwyr. Fe awgrymai, as y lefel isaf o berfformiad gyda sgiliau sylfaenol, y buasai person ond yn debygol o allu cael 1 allan o 50 o swyddi. *Basic Skills and Jobs* Sefydliad Astudiaethau'r Gweithwyr, ALBSU 1993.
2. *The Basic Skills of Young Adults* Ekinsmyth a Bynner, Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol 1994.
3. *Older and Younger: The basic skills of different age groups* Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol 1995.
4. *Lost Opportunities: The Language Skills of Linguistic Minorities in England and Wales* Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol 1995.

Detholwyd sampl cynrychioladol o bobl rhwng 16 a 64 yn byw yng Nghymru gan Beaufort Research Ltd. Cwblhawyd cyfanswm o 2,853 o gyfweliadau rhwng canol mis Medi a diwedd mis Tachwedd. Pwysolwyd canlyniadau'r arolwg i adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru (gweler y Nodyn Methodolegol ar dudalen 31)[5]. Roedd swmp pob cyfweliad yn cynnwys cyfres o orchwylion asesu a gwmpasai ystod o sgiliau darllen, ysgrifennu a rhifogrwydd sylfaenol o lefelau amrywiol. Roedd y rhan fwyaf o'r gorchwylion, wedi eu seilio ar set fwy a ddatblygwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgiadol, wedi cael eu maes brofi mewn cyfres o arolygon lleol a gynhaliwyd yn gynharach. Roeddynt wedi cael eu cynllunio i brofi'r defnydd o sgiliau llythrennedd a rhifogrwydd mewn bywyd bob dydd neu fywyd gwaith. Cynlluniwyd ail ran o'r cyfweliad i ddarparu gwybodaeth ddemograffig.

5. Darparodd 2328 o gyfweliadau ddata defnyddiadwy ar gyfer llythrennedd, tra darparodd 2061 ddata defnyddiadwy ar gyfer rhifogrwydd.

Y Gorchwylion Llythrennedd

Roedd yna 12 gorchwyl llythrennedd yn cwmpasu darllen, sillafu, atalnodi a llenwi ffurflenni. Roedd y gorchwylion darllen yn amrywio o ddeall darn o destun syml a byr iawn i ddethol gwybodaeth o erthygl eithaf cymhleth. Roeddynt yn seiliedig ar:

- **nodyn syml, yn gofyn i rywun wneud rhywfaint o siopa drostynt;**
- **cyfarwyddiadau yn egluro sut i newid batris mewn radio;**
- **erthygl fer wedi ei symleiddio o bapur newydd;**
- **erthygl fer o gylchgrawn ar wahanol fathau o rawn;**
- **taflen wybodaeth leol un dudalen;**
- **erthygl ddwy dudalen o bapur newydd.**

Gofynnwyd i bobl yn yr arolwg sillafu tri grŵp o eiriau, wedi eu rhoi yng nghyd-destun brawddeg, ac i brawf-ddarllen dau ddarn ac ychwanegu'r atalnodau cywir. Gofynnwyd iddynt hefyd lenwi ffurflen gais ffug am swydd. Cynlluniwyd yr orchwyl yma er mwyn i'r rheini gyda sgiliau ysgrifennu gwael allu cynnwys eu henw a'u cyfeiriad yn unig, tra gallai'r rheini gyda sgiliau gwell allu ysgrifennu sawl paragraff.

Gorchwyl 1

Rhoddwyd y geiriau canlynol i bobl, mewn brawddeg, a gofynnwyd iddynt eu sillafu. Mae'r canrannau yn dangos y rheini a roddodd ateb anghywir.[6]

would	**5%**
because	**9%**
apply	**10%**
writing	**13%**
complain	**8%**

2% **na sillafodd yr un o'r geiriau hyn yn gywir.**

79% **a'u sillafodd i gyd yn gywir.**

Gorchwyl 2

Rhoddwyd y geiriau canlynol i bobl, mewn brawddeg, a gofynnwyd iddynt eu sillafu. Mae'r canrannau yn dangos y rheini a roddodd ateb anghywir.

apologise	**42%**
unfortunately	**44%**
allowance	**21%**
receive	**42%**
sincerely	**42%**

15% **na sillafodd yr un o'r geiriau hyn yn gywir (dynion 17%, merched 13%).**

39% **a'u sillafodd i gyd yn gywir.**

Y canrannau na roddodd **yr un** ateb cywir, ym mhob grŵp oedran, oedd:[7]

16 – 18	**19%**
19 – 24	**12%**
25 – 34	**14%**
35 – 44	**11%**
45 – 54	**18%**
55 – 59	**16%**
60 – 64	**17%**

6. Trwy gydol yr adroddiad yma mae'r ffigyrau yn seiliedig yn unig ar y rheini a atebodd y cwestiynau; nid ydynt yn cynnwys y rheini nad oedd yn gwybod neu ddeall sut i wneud yr orchwyl, neu a wrthododdd ei gwneud.

7. Yr ydym wedi rhoi crynodebau yn ôl rhyw, oedran ac ardal mewn achosion lle maent yn dangos amrywiad anwyddocaol yn unig

Y canrannau na roddodd **yr un** ateb cywir, yn ôl AALl, oedd:

Clwyd	**8%**
De Morgannwg	**17%**
Dyfed	**10%**
Gorllewin Morgannwg	**6%**
Gwent	**17%**
Gwynedd	**19%**
Morgannwg Ganol	**22%**
Powys	**6%**

Gorchwyl 3

Rhoddwyd y geiriau canlynol i bobl, mewn brawddeg, a gofynnwyd iddynt eu sillafu. Mae'r canrannau yn dangos y rheini a roddodd ateb anghywir.

immediately	**47%**
necessary	**52%**
occasionally	**57%**
accommodation	**66%**
maintenance	**47%**

32% **na sillafodd yr un o'r rhain yn gywir (35% yn ddynion; 29% yn ferched).**

21% **a sillafodd y geiriau i gyd yn gywir.**

Y canrannau na roddodd **yr un** ateb cywir, ym mhob grŵp oedran, oedd:

16 – 18	**41%**
19 – 24	**29%**
25 – 34	**32%**
35 – 44	**28%**
45 – 54	**34%**
55 – 59	**36%**
60 – 64	**36%**

Y canrannau na roddodd **yr un** ateb cywir, yn ôl AALl, oedd:

Clwyd	**30%**
De Morgannwg	**37%**
Dyfed	**19%**
Gorllewin Morgannwg	**20%**
Gwent	**38%**
Gwynedd	**37%**
Morgannwg Ganol	**37%**
Powys	**28%**

Gorchwyl 4

Gofynnwyd i bobl yn yr arolwg brawf-ddarllen y darn gyferbyn ac ychwanegu'r atalnodau cywir.

When you play the National Lottery you choose six numbers between 1 and 49. It is important that you dont mark seven numbers on the ticket otherwise the computer will reject it. If you want to use the same numbers again and again for example four weeks running its possible to mark this on the ticket.

nad allai roi unrhyw atalnodau cywir yn y darn.

a roddodd yr atalnodau i gyd i mewn yn gywir.

Gorchwyl 5

Gofynnwyd i bobol hefyd brawf-ddarllen ail ddarn anoddach ac ychwanegu'r atalnodau cywir.

The arrangements for employees pensions have not been properly administered. A number of staff are affected in the following departments sales, marketing and operations. It would be helpful if the guidance notes, A Guide to Pension Arrangements, could be circulated as soon as possible.

nad allai roi unrhyw atalnodau cywir.

a roddodd yr atalnodau i gyd i mewn yn gywir.

Gorchwyl 6

Gofynnwyd i bobl ddarllen nodyn byr ac ateb tri chwestiwn:

- **Beth mae Jo eisiau i Pat ei wneud drosti?**
- **Pam ei bod hi'n gofyn i Pat wneud y siopa?**
- **Faint o'r gloch mae Jo yn disgwyl dychwelyd adref?**

a fethodd ateb unrhyw ran o'r cwestiwn yn gywir.

a atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir.

Dear Pat,

As I am going to be late home from work today I would be very grateful if you could buy some items for me on your regular trip to the supermarket. I shall need:

a large loaf of sliced brown bread
a jar of marmalade
a packet of cornflakes
1 pound of apples
1 packet (1 kg) of basmati rice
2 small plain yoghurts

I enclose £10.00 to cover the cost of these items.

I hope to see you at about 9 o'clock this evening.

Thank you very much for your kindness.

Jo

Gorchwyl 7

Gofynnwyd i bobl ddarllen set o gyfarwyddiadau ar gyfer newid y batris mewn radio ac ateb tri chwestiwn:

- **Lle mae'r batri?**
- **Pa rai o'r hen fatris a ddylai gael eu tynnu allan yn gyntaf?**
- **Pa un o'r tri batri newydd a ddylai gael ei roi i mewn yn olaf?**

a fethodd ateb unrhyw ran o'r cwestiwn yn gywir.

a atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir.


1.
The battery compartment is found on the back of the transistor set. Remove the battery compartment cover by pressing on it and sliding the cover off.
2.
To take out the old batteries, press down on the base of the central battery. The two other batteries, to the left and right of the middle one can then be taken out.
3.
To insert the three new batteries in the battery compartment place the first and third batteries in the compartment with their plus signs facing to the left hand side. The second (and middle battery) can then be inserted.
4.
Replace the battery compartment cover by putting it onto the slots provided and pushing the cover firmly into position.

Diagrams from Sony Corporation

BEST COPY AVAILABLE

Gorchwyl 8

Gofynnwyd i bobl ddarllen erthygl fer o bapur newydd ac ateb tri chwestiwn:

- Beth a ddywedir wrthym am gyflwr Whisky pan gerddodd i mewn i'r distyllty yn yr Alban?
- Sut y llwyddodd hi i aros yn fyw heb fwyd?
- Lle mae Whisky yn awr?

a fethodd ateb unrhyw ran o'r cwestiwn yn gywir.

a atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir.

The Stowaway Cat

Whisky the cat had only planned to curl up for a quick snooze after a night on the tiles in Louisville, Kentucky. She ended up nursing a bad hangover after spending thirty days in a used whisky barrel while crossing the Atlantic Ocean by ship.

The young black and white cat survived without food by licking the dregs from the wooden barrel. When she walked unsteadily into the whisky distillery in Keith, Scotland, she was very much the worse for wear.

"She was struggling to get to her feet, not just through lack of food, but because she would also have been somewhat affected by the whisky", said company boss John Watson.

The police, who were called to look into this unlawful entry, said cat stowaways are usually destroyed. But the company decided to spare what was left of Whisky the cat's nine lives.

"It seemed the only decent thing to do after all she has been through. It's amazing that she's still alive."

Whisky is now serving out her time in a cattery. She had lost weight during the journey by ship but was able to get vital nourishment from the whisky dregs.

Adapted from report by Angela Johnson
The Guardian, 17.6.93

Gorchwyl 9

Gofynnwyd i bobl ddarllen erthygl o gylchgrawn ac ateb pedwar cwestiwn:

- Oddeutu faint o wahanol fathau o laswellt sydd yna yn y byd?
- Enwau tri math gwahanol o rawn?
- Pa rawn sydd yn tyfu'n dda mewn pridd tywodlyd, gwael?
- Sut y gwneir blawd o wenith?

a fethodd ateb unrhyw ran o'r cwestiwn yn gywir.

a atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir.

The Importance of Cereal Grasses in Providing Essential Food



BEST COPY AVAILABLE

Ym mhob grŵp oedran, y canrannau nad atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir oedd:

16 – 18	**48%**	**45 – 54**	**37%**
19 – 24	**35%**	**55 – 59**	**34%**
25 – 34	**38%**	**60 – 64**	**43%**
35 – 44	**31%**		

Gorchwyl 10

Gofynnwyd i bobl ddethol gwybodaeth o daflen un dudalen ac ateb tri chwestiwn:

- **Yn ystod y cyfnod 1965-1982 ym mha flwyddyn oedd y maint mwyaf o safle ffatri newydd yn cael ei wneud ar gael?**
- **Pa ganran o bobl sydd yn gweithio yng Nghanol y Dref ac yng Nghanolfan Concord a phentrefi eraill?**
- **Sut ydym yn gwybod bod rhodfeydd cerddwyr wedi profi'n llwyddiannus iawn?**

a fethodd ateb unrhyw ran o'r cwestiwn yn gywir.

a atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir.

WASHINGTON NEW TOWN

WASHINGTON, County Durham, was planned as a new town in 1964. At that time local unemployment was considered high at 4.3% as a result of a decline in coal mining, shipbuilding and heavy industries.

However, in the period 1965-1982 the population nearly trebled as new employers sought workers. One of the biggest employers, Nissan the motor manufacturers, built their new factory just outside the new town boundary. Firms that supplied parts to Nissan set up in Washington itself.

Of those in employment 44% worked in the new town, while the remainder had jobs outside. More than a third of the workers, who lived in the town, walked to work – a tribute to the new town planners who had provided pedestrian walkways.

Where people work in Washington, and what kinds of job



Washington new town statistics

Year	*Population*	*New Dwellings*	*New Jobs (since 1965)*
1965	20,000	58	
1966	20,298	142	
1967	20,485	88	
1968	21,182	333	19,042
1969	22,856	797	42,015
1970	25,025	393	65,922
1971	25,200	1061	12,701
1972	28,366	1603	59,621
1973	30,009	923	13,730
1974	33,120	1025	28,263
1975	37,900	1258	38,900
1976	41,500	1068	33,031
1977	46,303	1047	12,750
1978	47,233	683	1,109
1979	49,620	393	11,291
1980	50,100	908	37,833
1981	51,900	952	25,030
1982	52,370	937	24,000

Ym mhob grŵp oedran, y canrannau nad atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir oedd:

16 – 18	**47%**	**45 – 54**	**46%**
19 – 24	**34%**	**55 – 59**	**46%**
25 – 34	**31%**	**60 – 64**	**48%**
35 – 44	**36%**		

BEST COPY AVAILABLE

Gorchwyl 11

Gofynnwyd i bobl ddarllen tudalen o destun a dweud a oedd y datganiadau canlynol yn wir ynteu gau:

- Rhwng 1971 ac 1991 mae'r nifer o ysgariadau wedi mwy na threblu.
- Ers 1971 mae yna leihad wedi bod yn y nifer o bobl sydd yn byw ar eu pennau eu hunain.
- Ym 1991 roedd mymryn dros 17 y cant o deuluoedd gyda phlant dibynnol yn cael eu rhedeg gan famau sengl.

a fethodd ateb unrhyw ran o'r cwestiwn yn gywir.

a atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir.




2 People in households
by type of household and family in which they live
5 Families headed by lone mothers and lone fathers as a percentage of all families with dependent children
Great Britain
All lone parents
Lone fathers
Lone mothers
6 Live births outside marriage as a percentage of all births
United Kingdom

52

BEST COPY AVAILABLE

Canfyddiadau

Gorchwyl 12

Gofynnwyd i bobl lenwi ffurflen gais ffug am swydd.

a allai lenwi gwybodaeth sylfaenol iawn yn unig.

a allai gwblhau y ffurflen i gyd.

APPLICATION FOR A TEMPORARY POSITION AS ORGANISER OF A SUMMER CAMP FOR DISABLED CHILDREN

Please use BLOCK letters

BEST COPY AVAILABLE

16 – 18	12%	45 – 54	12%
19 – 24	5%	55 – 59	16%
25 – 34	9%	60 – 64	17%
35 – 44	9%		

Y Gorchwylion Rhifogrwydd

Roedd yna 8 gorchwyl rhifogrwydd, unwaith eto o lefelau amrywiol. Roedd y gorchwylion hyn yn cAmpasu:

- **cyfrif newid**
- **gweithio allan yr amser a gymerir i wneud rhywbeth**
- **amcangyfrif arwynebedd ystafell**
- **gosod switsh amseru gwres canolog gan ddefnyddio'r cloc 24 awr**
- **rhannu costau adloniant gyda ffrindiau**
- **dethol gwybodaeth ariannol o siart syml**
- **gweithio bil bwyty gan gynnwys tâl gwasanaeth canrannol**
- **dehongli graff.**

Gorchwyl 1

Gofynnwyd i bobl faint o newid y buasech yn ei gael o £2 ar ôl prynu torth o fara (68c) a dau dun o gawl (45c yr un).

a gafodd yr ateb anghywir.

SHOPPING FOR A NEIGHBOUR

a loaf of bread

two tins of soup

Y canrannau a roddodd ateb anghywir, yn ôl grŵp oedran, oedd:

16 – 18	**35%**
19 – 24	**22%**
25 – 34	**20%**
35 – 44	**20%**
45 – 54	**24%**
55 – 59	**23%**
60 – 64	**24%**

Gorchwyl 2

Dangoswyd amserlen syml i bobl a gofynnwyd iddynt pa drên fuasai'n eu cludo i gyfweliad am swydd mewn amser, gan gynnwys taith gerdded ddeng munud o'r orsaf, a'r amser y buasent yn cyrraedd swyddfeydd y cwmni.

a gafodd y ddau ateb yn anghywir.

a gafodd yr ateb i gyd yn gywir.

PLANNING A ROUTE FOR A JOB INTERVIEW

Hazledene & Co.

The Gene, Almsford, Hampshire

British Rail ⇄ **Timetable**

Morton to Turnerstone				Mon-Fri
Morton	10.17	10.37	10.57	11.17
Graves End	10.21	10.41	11.01	11.21
Newgate	10.32	10.52	11.12	11.32
Appleby	10.40	11.00	11.20	11.40
Meadstone	10.49	11.09	11.29	11.49
Almsford	10.55	11.15	11.35	11.55
Turnerstone	11.01	11.21	11.41	12.01
Turnerstone to Morton				**Mon-Fri**
Turnerstone	12.24	12.59	13.34	13.59
Almsford	12.30	13.05	13.40	14.05
Meadstone	12.36	13.11	13.46	14.11
Appleby	12.45	13.20	13.55	14.20
Newgate	12.53	13.28	14.03	14.28
Graves End	13.04	13.39	14.14	14.39
Morton	13.08	13.43	14.18	14.43

Gorchwyl 3

Gofynnwyd i bobl amcangyfrif arwynebedd ystafell 21tr x 14tr. Gallent ddefnyddio cyfrifiannell neu bapur a phensil pe mynnent.

a gafodd yr ateb anghywir (33% yn ddynion a 53% yn ferched).

a atebodd yn gywir.

THE AMOUNT OF FLOOR SPACE IN A ROOM

BEST COPY AVAILABLE

Gorchwyl 4

Gofynnwyd i bobl nodi pedwar gosodiad ar amserydd gwres canolog; roedd yr orchwyl yn ymwneud â dealltwriaeth o'r cloc 24 awr.

nad allai roi ateb cywir i unrhyw un o'r cwestiynau.

a atebodd y rhannau i gyd yn gywir.



Set this timer to start at 6.00 am
to stop at 8.30 am
to start at 5.00 pm
to stop at 11.00 pm

Gorchwyl 5

Gofynnwyd i bobl amcangyfrif cost cyflawn pizza i fynd allan a dau fideo a'i rannu yn gyfartal rhwng chwe ffrind. Gallent ddefnyddio cyfrifiannell neu bapur a phensil pe mynnent.

nad atebodd yr un o'r ddwy ran yn gywir.

a atebodd y cwestiwn i gyd yn gywir.

AN EVENING WITH FRIENDS



2 Videos £2.50 each

Take-away Pizza £19.66

Gorchwyl 6

Gofynnwyd i bobl ateb tri chwestiwn yn seiliedig ar wybodaeth mewn siart yn amlinellu gwariant gan gyngor lleol; roedd yn rhaid iddynt dalgrynnu gwariant i'r miliwn agosaf.

nad atebodd unrhyw ran yn gywir.

a atebodd y rhannau i gyd yn gywir.

CITY COUNCIL SPENDING 1993 AND 1994 (£ MILLION)

DEPARTMENT	1993 (£m)	1994 (£m)
EDUCATION	23.73	24.28
HOUSING	6.24	5.96
CLEANSING	2.16	2.87
FIRE	1.99	2.31
POLICE	8.80	10.34
AMBULANCE	2.85	3.02
OTHER	6.50	10.25
TOTAL	52.27	58.85

Gorchwyl 7

Gofynnwyd i bobl adio bil bwyty a gweithio'r tâl gwasanaeth o 12.5% allan. Gallent ddefnyddio cyfrifiannell neu bapur a phensil pe mynnent.

nad atebodd yr un rhan yn gywir.

a atebodd y ddwy ran yn gywir.

ORDER

Service charge at 12.5%

Family 1 orders:

2 x Steak & Chips	£4.95 each
2 x Fish & Chips	£3.95 each
1 Bottle of White Wine	£4.90 each
3 x Ice Cream	£0.95 each
1 x Chocolate Pudding	£1.60 each

Family 2 orders:

1 x Steak & Chips	£4.95 each
2 x Fish & Chips	£3.95 each
1 Bottle of Red Wine	£4.99 each
3 x Ice Cream	£0.95 each

Gorchwyl 8

Gofynnwyd i bobl ddehongli siart far a graff llinell ac ateb pedwar cwestiwn. Gallent ddefnyddio cyfrifiannell neu bapur a phensil pe mynnent.

nad atebodd unrhyw ran yn gywir (5% yn ddynion a 10% yn ferched).

a atebodd bob rhan yn gywir.

SPENDING ON BASICS GRAPH



EARNING vs COST OF LIVING GRAPH





Mae canlyniadau'r arolwg, gan ganolbwyntio ar ddarllen a rhifogrwydd, wedi cael eu dadansoddi gan yr un dull a ddefnyddiwyd i fesur lefelau sgiliau sylfaenol mewn astudiaethau o'r Astudiaeth Datblygiad Plant Cenedlaethol.[8] Mae hyn yn golygu grwpio'r rhai yn yr arolwg yn ôl eu sgoriau. Mae'n bwysig tanlinellu'r pwynt fod y ffigyrau cyffredinol ar gyfer llythrennedd yn y tablau isod yn delio gyda darllen yn unig. Fel mae'r canlyniadau ar dudalennau 5 a 6 yn ei ddangos, gall sillafu, ysgrifennu a llenwi ffurflenni achosi problemau i ganran fwy o'r boblogaeth.

Llythrennedd

Mae gan tua 6% o bobl yn yr arolwg yng Nghymru broblemau gyda darllen. Roedd gan 10% pellach o bobl yn yr arolwg sgiliau darllen cymharol wael. Roedd gan 34% o'r rheini yn yr arolwg lefelau 'cyffredin' o sgiliau darllen ac roedd gan 51% sgiliau darllen da.

Isel iawn	**6%**
Isel	**10%**
Cyffredin	**34%**
Da	**51%**
rh =	*2328*

Wrth ddadansoddi rhai o'r nodweddion a gysylltir yn gyson â sgiliau llythrennedd mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn, yr ydym wedi cyfuno'r grwpiau 'isel iawn' ac 'isel'.

Rhifogrwydd

Gwnaeth cyfran arwyddocaol o bobl rhwng 16 a 64 yng Nghymru yn wael wrth gael eu hasesu ar gyfer rhifogrwydd. Roedd gan 15% sgiliau 'isel iawn' ac roedd gan 29% sgiliau 'isel'. Roedd gan 23% sgiliau 'cyffredin' ac roedd gan 33% sgiliau 'da'.

Isel iawn	**15%**
Isel	**29%**
Cyffredin	**23%**
Da	**33%**
rh =	*2061*

8. *Does numeracy matter?* Bynner a Parsons, Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, 1996.

Adult Life and Basic Skills, Bynner a Parsons, Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, 1997.

Llythrennedd a rhifogrwydd

Dangosodd dadansoddiad manwl gydberthynedd rhwng llythrennedd gwael a rhifogrwydd gwael. Roedd gan 46% o'r rheini gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel sgiliau rhifogrwydd isel iawn yn ogystal.

Rhyw

Ar y cyfan, roedd gan fwy o ferched broblemau gyda rhifogrwydd a darllen. Fel yr awgryma adrannau cynharach yn yr adroddiad hwn, mae'n ymddangos fod gan fwy o ddynion broblemau gyda sillafu.

Llythrennedd (darllen)	Dynion %	Merched %
isel iawn & isel	13	18
cyffredin	34	33
da	53	49
rh =	*1033*	*1295*

Llythrennedd (darllen)	Dynion %	Merched %
isel iawn	13	16
isel	28	31
cyffredin	24	23
da	36	30
rh =	*935*	*1126*

Oedran a rhyw

Ni chafodd pobl dros 64 eu cynnwys yn yr astudiaeth. Yr ydym yn gwybod yn sgil arolygon eraill fod nifer o bobl hŷn yn sgorio'n wael mewn llythrennedd a rhifogrwydd, ac yr ydym yn amau fod gan hyn rywbeth i'w wneud ag effeithiau heneiddio. Fel y dengys y tablau gyferbyn, roedd merched ifancach, yn ogystal â'r rheini rhwng 55 a 59, yn fwy tebygol o gael sgiliau darllen gwael. Mewn cyferbyniad, roedd merched hŷn a dynion yn eu hugeiniau cynnar yn fwy tebygol o gael sgiliau rhifogrwydd gwael.

9. Nid yw ffigyrau yn adio i 100% oherwydd talgrynnu.

61

Gallu Rhifogrwydd Dosbarthedig yn ôl Rhyw ac Oedran								
	Pawb %	16-18 %	19-24 %	25-34 %	35-44 %	45-54 %	55-59 %	60-64 %
Dynion								
Isel iawn	13	13	6	14	9	18	7	10
Isel	28	29	31	24	26	28	24	40
Cyffredin	24	25	23	26	22	21	23	26
Da	36	32	30	36	43	34	47	24
rh =	*935*	*61*	*152*	*242*	*154*	*166*	*73*	*87*
Merched								
Isel iawn	16	15	8	14	15	20	29	21
Isel	31	34	36	27	31	29	28	38
Cyffredin	23	26	32	27	23	17	16	18
Da	30	25	23	32	32	35	28	23
rh =	*1126*	*50*	*196*	*293*	*234*	*208*	*70*	*75*

Gallu Darllen Dosbarthedig yn ôl Rhyw ac Oedran								
	Pawb %	16-18 %	19-24 %	25-34 %	35-44 %	45-54 %	55-59 %	60-64 %
Dynion								
Isel iawn & Isel	13	11	16	13	10	15	11	18
Cyffredin	34	39	26	32	31	44	22	42
Da	53	50	59	56	60	42	66	41
rh =	*1033*	*67*	*170*	*262*	*160*	*195*	*84*	*95*
Merched								
Isel iawn & Isel	18	25	14	16	18	17	25	17
Cyffredin	33	38	29	35	32	33	36	34
Da	49	38	57	50	50	50	39	50
rh =	*1295*	*67*	*218*	*335*	*267*	*239*	*85*	*84*

Mae dadansoddiad o'r canlyniadau ar orchwylion unigol yn dangos patrwm tebyg, gyda'r grŵp oedran hynaf a'r grŵp oedran 16 i 18 yn perfformio'n llai da ym mhob gorchwyl bron na grwpiau oedran eraill. Yr eithriad oedd yr orchwyl llenwi ffurflenni lle perfformiodd y rheini yn eu hugeiniau cynnar yn well nag unrhyw grŵp oedran arall. Nid oedd yna batrwm cyson mewn perthynas ag oedran a'r gorchwylion atalnodi.

Statws cyflogaeth a dosbarth cymdeithasol

Fel y gellid disgwyl, roedd gan y rheini mewn gwaith cyflogedig, pa un ai yn amser llawn neu yn rhan amser, sgiliau llythrennedd a rhifogrwydd gwell na'r rheini oedd yn ddi-waith. Roedd yna berthynas gyson rhwng diweithdra a phroblemau gyda sgiliau sylfaenol. Mae'r tablau isod yn amlinellu'r prif ganfyddiadau.

Cyflogaeth a llythrennedd: dynion

	gwaith amser llawn	gwaith rhan amser	di-waith	digyflog (sâl/gofal ty)	hunangyf-logedig	arall[10]	*rh*
isel iawn & isel %	38	7	16	12	12	15	*137*
cyffredin %	50	3	9	11	13	14	*348*
da %	47	4	10	7	14	18	*547*

Cyflogaeth a llythrennedd: merched

	gwaith amser llawn	gwaith rhan amser	di-waith	digyflog (sâl/gofal ty)	hunangyf-logedig	arall[10]	*rh*
isel iawn & isel %	20	23	8	35	5	9	*223*
cyffredin %	22	20	5	33	6	14	*434*
da %	28	19	4	26	6	17	*633*

Cyflogaeth a rhifogrwydd: dynion

	gwaith amser llawn	gwaith rhan amser	di-waith	digyflog (sâl/gofal ty)	hunangyf-logedig	arral[10]	*rh*
isel iawn %	46	6	16	11	9	12	*124*
isel %	48	4	10	7	14	17	*262*
cyffredin %	42	3	11	8	15	21	*225*
da %	46	3	8	9	17	17	*323*

10 wedi ymddeol, addysg amser llawn

Cyflogaeth a rhifogrwydd: merched								
		gwaith amser llawn	gwaith rhan amser	di-waith	digyflog (sâl/gofal tŷ)	hunangyf-logedig	arall[10]	*rh*
isel iawn	%	15	25	8	39	3	10	*176*
isel	%	24	18	5	34	5	14	*350*
cyffredin	%	31	18	4	21	7	19	*264*
da	%	31	19	4	26	8	12	*331*

Cyflogaeth 19-24

Dangosodd dadansoddiad manwl fod effaith sgiliau sylfaenol mewn perthynas â chyflogaeth yn amlwg iawn yn y grŵp oedran 19-24. Er enghraifft:

- **Roedd 24% o ddynion gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel yn ddi-waith, o'i gymharu â 6% o'r rheini gyda sgiliau da.**
- **Roedd 26% o ddynion gyda sgiliau rhifogrwydd isel iawn yn ddi-waith o'i gymharu â 8% o'r rheini gyda sgiliau rhifogrwydd da.**
- **Roedd 23% o ferched gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel mewn cyflogaeth amser llawn, o'i gymharu â 37% o'r rheini gyda sgiliau da.**
- **Roedd 39% o ferched gyda sgiliau darllen isel ac isel iawn yn 'ddigyflog' o'i gymharu â 12% o'r rheini gyda sgiliau da.**

Roedd y berthynas rhwng sgiliau sylfaenol gwael a dosbarth gweithiol yn gyson gyda chanfyddiadau sawl arolwg blaenorol. Dosbarthwyd grwpiau cymdeithasol-economaidd o A i D yn ôl swydd prif enillydd incwm y cartref. Codai lefelau perfformiad yn gyson yn unol â dosbarth cymdeithasol. Roedd bron i hanner y dynion a'r merched (45%) gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel yn nosbarthiadau cymdeithasol Ch a D o'i gymharu â 22% o'r rheini gyda sgiliau darllen da.

Roedd y rheini gyda sgiliau sylfaenol gwael yn llawer mwy tebygol o fod wedi gadael ysgol yn 16, gan feddu ar ddim ond ychydig gymwysterau, os o gwbl. Er enghraifft:

- **Roedd y rheini a adawodd addysg amser llawn yn 16 bedair gwaith mor debygol o gael sgiliau darllen isel iawn ac isel a dros bedair gwaith mor debygol o gael sgiliau rhifogrwydd isel iawn â'r rheini nad adawodd tan eu bod yn 21.**

- **Dim ond 9% o ddynion rhwng 19 a 24 gyda sgiliau rhifogrwydd isel iawn a 5% o ddynion gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel oedd yn dal i fod mewn addysg amser llawn, o'i gymharu â 34% o ddynion gyda sgiliau rhifogrwydd da a 41% o ddynion gyda sgiliau darllen da.**

- **Roedd 3% o ferched rhwng 19 a 24 gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel a 4% o'r rheini gyda sgiliau rhifogrwydd isel iawn yn dal i fod mewn addysg amser llawn o'i gymharu â 35% o'r rheini gyda sgiliau darllen da a 26% o'r rheini gyda sgiliau rhifogrwydd da.**[11]

- **Ar y cyfan, roedd oddeutu traean o ddynion a merched gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel neu rifogrwydd isel iawn heb gymwysterau o'i gymharu â chwarter o'r rheini gyda sgiliau darllen da ac un rhan o bump o'r rheini gyda sgiliau rhifogrwydd da.**

- **Roedd 57% o ddynion a 29% o ferched rhwng 19 a 24 gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel heb gymwysterau ffurfiol. Roedd hyn yn cymharu â 3% o ddynion a 7% o ferched gyda sgiliau darllen da, o'r un oedran.**

- **Roedd mwy na thraean o ddynion a merched rhwng 19 a 24 gyda sgiliau rhifogrwydd isel iawn heb gymwysterau; dim ond 2% o ddynion a 3% o ferched gyda sgiliau da, o'r un oedran, oedd heb gymwysterau.**

- **Roedd oddeutu 9 allan o 10 o ddynion a merched rhwng 45 a 54 gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel heb gymwysterau ffurfiol – dwywaith y gyfran o ddynion a merched o'r un oedran gyda sgiliau da.**

- **Roedd dros 70% o ddynion a merched rhwng 45 a 54 gyda sgiliau rhifogrwydd isel iawn heb gymwysterau; roedd dan hanner o ddynion a thraean o ferched gyda sgiliau da, o'r un oedran, heb gymwysterau.**

11. Mae'r niferoedd ar gyfer y rheini rhwng 16 a 18 yn rhy fach i ganiatáu dadansoddiad defnyddiol.

Amrywiadau rhanbarthol

Yn ystod yr arolwg roedd yna wyth awdurdod addysg lleol yng Nghymru, tra bod yna ddau ar hugain erbyn hyn. Dangosai'r data cyffredinol ar gyfer darllen y lefelau uchaf o anhawster yng Ngwent a Morgannwg Ganol. Yr awdurdodau gyda'r niferoedd lleiaf o bobl yn sgorio'n isel iawn ac isel oedd Powys a Gorllewin Morgannwg. Dylid nodi fod y nifer o'r rheini yn y sampl ym Mhowys yn fach.

Darllen

	isel iawn & isel	cyffredin	da	*rh*
Clwyd %	13	30	58	*336*
De Morgannwg %	13	36	51	*336*
Dyfed %	17	26	57	*311*
Gorllewin Morgannwg %	12	23	65	*257*
Gwent %	21	45	35	*377*
Gwynedd %	14	39	47	*168*
Morgannwg Ganol %	17	35	48	*424*
Powys %	11	40	49	*113*

Ar gyfer rhifogrwydd yr awdurdodau gyda'r niferoedd uchaf o bobl yn sgorio'n 'isel iawn' oedd Morgannwg Ganol a Gwynedd. Yr awdurdodau gyda'r niferoedd isaf yn sgorio'n 'isel iawn' oedd Powys, Gorllewin Morgannwg a Dyfed. Sgoriodd 44% a 43% o'r rheini yn Nyfed a Chlwyd yn 'dda', o'i gymharu â 19% o'r rheini yng Ngwent.

12. Nid yw ffigyrau bob amser yn adio i 100% oherwydd talgynnu.

Amrywiadau rhanbarthol

Rhifogrwydd

	isel iawn	isel	cyffredin	da	*rh*
Clwyd %	13	24	20	44	*288*
De Morgannwg %	15	32	23	30	*307*
Dyfed %	12	22	23	43	*290*
Gorllewin Morgannwg %	12	23	26	39	*245*
Gwent %	13	37	31	19	*319*
Gwynedd %	19	28	24	30	*146*
Morgannwg Ganol %	20	34	17	30	*362*
Powys %	11	39	28	23	*99*

Mae angen i'r ffigyrau cyffredinol rhain gael eu gweld yng nghyd-destun y ffactorau a drafodwyd eisoes (ar dudalen 23) sydd â pherthynas gyson â sgiliau sylfaenol gwael, dosbarth gweithiol yn enwedig. Fel y dengys y tablau gyferbyn, mae dosbarthiad y sgoriau mewn perthynas agos â phatrwm cyfansoddiad dosbarth cymdeithasol. O fewn yr awdurdodau bychain, newydd bydd yr un patrwm yn parhau.

Amrywiadau rhanbarthol

Gallu Rhifogrwydd Dosbarthedig yn ôl Sir a Dosbarth Cymdeithasol

	Pawb %	Clwyd %	De Mor. %	Dyfed %	Gorll. Mor. %	Gwent %	Gwynedd %	Mor. Ganol %	Powys %
Anllafuriol									
Isel lawn	7	6	7	4	7	9	8	6	5
Isel	**26**	**18**	**33**	**18**	**11**	**31**	**27**	**37**	**32**
Cyffredin	24	17	25	20	25	33	29	20	37
Da	43	50	37	58	57	27	36	35	25
rh =	*993*	*123*	*172*	*141*	*119*	*173*	*70*	*161*	*33*
Llafuriol									
Isel lawn	22	18	26	19	16	19	29	31	14
Isel	**32**	**27**	**31**	**26**	**35**	**43**	**29**	**31**	**43**
Cyffredin	22	22	20	26	27	29	19	16	23
Da	24	33	22	28	23	9	24	24	21
rh =	*1065*	*165*	*135*	*149*	*126*	*146*	*76*	*201*	*66*

Gallu Darllen Dosbarthedig yn ôl Sir a Dosbarth Cymdeithasol

	Pawb %	Clwyd %	De Mor. %	Dyfed %	Gorll. Mor. %	Gwent %	Gwynedd %	Mor. Ganol %	Powys %
Anllafuriol									
Isel lawn & Isel	7	6	8	9	6	15	6	4	7
Cyffredin	29	26	31	24	18	46	36	23	38
Da	63	68	61	68	78	40	58	73	55
rh =	*1064*	*139*	*184*	*141*	*121*	*194*	*81*	*165*	*38*
Llafuriol									
Isel lawn & Isel	22	18	19	24	19	27	22	26	14
Cyffredin	37	32	42	28	29	45	42	42	41
Da	42	51	40	48	53	28	37	33	45
rh =	*1260*	*197*	*152*	*170*	*136*	*183*	*87*	*259*	*78*

BEST COPY AVAILABLE

Siaradwyr Cymraeg

Casglodd yr arolwg wybodaeth ynglyn â'r iaith Gymraeg – a oedd pobl yn ei siarad? Gofynnwyd iddynt hefyd a oeddynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl ai peidio. Yn ychwanegol gofynnwyd iddynt ai'r brif iaith a ddefnyddiwyd ar yr aelwyd, pan yn blant, oedd Saesneg, Cymraeg neu'r ddwy iaith.

Yn yr arolwg dywedodd chwarter o'r holl atebwyr eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mymryn o dan un mewn deg a ddobarthwyd fel y rheini y mae'r iaith Gymraeg yn famiaith iddynt. Mae'r lefelau hyn o siarad Cymraeg rhywfaint yn uwch na'r rheini a ddangosir gan ddata cyfrifiad, ond yn nodweddiadol eang o ddata o arolygon o'r math yma. Mae yna farn gyffredin fod data swyddogol yn dueddol o roi amcangyfrif rhy isel o'r gwir niferoedd o siaradwyr Cymraeg. Yn yr arolwg yma amrywiai siarad Cymraeg o 68% yng Ngwynedd i 7% yng Ngwent. Dyfed a Chlwyd oedd yr unig ddwy sir arall lle'r oedd mwy nag un mewn pump o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Cofnodwyd siaradwyr Cymraeg rhugl fel 50% yng Ngwynedd ac 1.5% yng Ngwent.

Dangosai'r canfyddiadau cyffredinol fod:

- **Siaradwyr Cymraeg rhugl yn llai tebygol o gael sgiliau darllen isel iawn ac isel na'r rheini na siaradai Gymraeg (11% i 16%) ac roedd siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o gael sgiliau rhifogrwydd isel iawn na'r rheini na siaradai Gymraeg (11% i 16%).**

- **Roedd y rheini a siaradai Saesneg ar yr aelwyd pan yn blant yn fwy tebygol o gael sgiliau darllen isel iawn ac isel na'r rheini a siaradai Gymraeg (16% o'i gymharu â 12%); roedd y rheini a siaradai Saesneg a Chymraeg yn fwyaf tebygol o gael sgiliau isel iawn ac isel (17%).**

- **Roedd y rheini a siaradai Saesneg a Chymraeg ar yr aelwyd yn fwyaf tebygol o gael sgiliau rhifogrwydd isel iawn (20%) o'i gymharu â Chymraeg (15%) a Saesneg (14%).**

Siaradwyr Cymraeg

Pan gymerir dosbarth cymdeithasol i ystyriaeth mae rhai o'r gwahaniaethau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd ddim yn siarad yr iaith yn altro. Buasai angen mwy o ddadansoddi manwl nag oedd yn bosibl yn yr arolwg yma er mwyn archwilio hyn a chynhyrchu canlyniadau dibynadwy.

- **O fewn y ffigyrau cyffredinol fe ymddangosai, ymhlith dosbarthiadau anllafuriol, fod y gwahaniaethau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rheini sydd ddim yn siarad yr iaith yn diflannu. Er enghraifft, roedd niferoedd y rheini gyda sgiliau darllen isel iawn ac isel yn 8% (siaradwyr Cymraeg) a 7% (siaradwyr Saesneg). Fodd bynnag, mae angen trin y ffigyrau hyn yn ofalus gan eu bod yn celu peth o'r amrywiad rhwng y gwahanol rannau o Gymru a'r gwahaniaethau sylweddol yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg.**

- **Ymddangosai fod yna wahaniaethau yn parhau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r rheini na siaradai Gymraeg i'r dosbarthiadau llafuriol. Ar y cyfan roedd gan 16% o siaradwyr Cymraeg sgiliau rhifogrwydd isel iawn, o'i gymharu â 24% o'r rheini na siaradai Gymraeg. Unwaith eto, byddai angen dadansoddi'r ffigyrau hyn ymhellach er mwyn bod yn siwr o'u harwyddocâd.**



Canlyniad

Mae canlyniadau'r arolwg yma yn dangos fod yn rhaid i godi safonau sgiliau sylfaenol fod yn flaenoriaeth uchel. Mae'r canlyniadau yn dangos lefelau anwyddocaol o angen gydag 16% o'r boblogaeth yn meddu ar sgiliau llythrennedd isel iawn ac isel a 15% yn meddu ar sgiliau rhifogrwydd isel iawn. Os rhywbeth, mae'r ffigyrau hyn yn debygol o roi amcangyfrif is o raddfa'r angen oherwydd i bawb a fethodd ateb o gwbl gael eu gadael allan o'r dadansoddiad.

Mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol a dibynadwy rhwng y ffigyrau hyn a'r rheini a gynhyrchwyd gan arolygon eraill yn cwmpasu Cymru a Lloegr oherwydd nad yw'r gorchwylion na'r gweinyddiad wedi bod yn union yr un fath. Gyda'r gorchwylion hyn mae'r canlyniadau yng Nghymru yn dangos lefel braidd yn uwch o namau nag yn yr arolwg Cymru a Lloegr.

Gyda darllen a rhifogrwydd mae canrannau cyffredinol y rheini gydag anghenion sgiliau sylfaenol yn debyg iawn. Mae bron bob arolwg a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth yn dangos bod oddeutu 16% o'r boblogaeth o oedolion yn meddu ar nywfaint o broblemau gyda darllen, ac mae'r ffigwr o hyd yn uwch pan gynhwysir ysgrifennu. Yn yr un modd mae'r nifer o bobl gyda rhywfaint o broblemau rhifogrwydd yn unol ag arolygon eraill.

Nid oes yr un o'n harolygon blaenorol wedi cynnwys y grŵp oedran 16-18. Tra bod niferoedd y rheini yn yr arolwg Cymraeg yn y grŵp oedran hwn yn gymharol fach, mae'n drawiadol eu bod yn dueddol o sgorio'n isel ym mron bob gorchwyl. Mae hyn yn awgrymu pwysigrwydd rhaglenni er mwyn trafod eu anghenion.

Mae'r arolwg yn tanlinellu'r cysylltiadau cryfion rhwng sgiliau sylfaenol gwael a diweithdra. Mae'n dangos fod yna orchwyl bwysig i'w gwneud trwy ehangu cyfleoedd i wella eu llythrennedd a'u rhifogrwydd a chael siawns gyflawn o gyfranogi mewn cymdeithas.

Nodyn methodolegol

1. Cynlluniwyd y sampl i fod yn gynrychioladol, ar ôl pwysoli, o drigolion Cymru rhwng 16 a 64 a defnyddiwyd dull samplo cwota.

2. Yr uned samplo oedd dosbarth gweinyddol awdurdod lleol a detholwyd pwyntiau samplo (lleoliadau cyfweld) gyda thebygolrwydd detholiad yn gyfatebol i faint y boblogaeth o oedolion preswyl rhwng 16 a 64. Detholwyd cyfanswm o 150 pwynt yn y ffordd yma yn dilyn haeniad gyda'r wyth sir yng Nghymru ar y pryd.

3. Defnyddiwyd rheoliaethau cwota o fewn pob lleoliad cyfweld ar gyfer detholiad 20 o atebwyr. Roedd y rhain yn cyd-gloi ac wedi eu gosod mewn termau o statws gwaith (tri grŵp) a band oedran (pedwar grŵp) o fewn rhyw. Amcangyfrwyd y rheoliaethau i adlewyrchu proffil demograffig trigolion Cymreig rhwng 16 a 24 fel y dangosir yng Nghyfrifiad 1991 ac amcangyfrifon poblogaeth canol 1994.

4. Gorfodwyd y rheoliaethau ychwanegol canlynol yn ogystal:
   a) ni chafodd mwy nag un person o bob cartref ei gyfweld.
   b) canolbwyntiwyd cyfweld cyn hwyred yn y dydd â phosibl
   c) rhoddwyd cyfarwyddiadau i gael gafael ar nychwant yn nhermau dosbarth cymdeithasol
   ch) roedd y cyfweliadau i gymal yng nghartrefi'r atebwyr.

5. Cynhaliwyd bob gwaith maes gan ddefnyddio holiadur strwythuredig/dogfen iesu y cytunwyd arno/arni.

6. Cynhaliwyd pob cyfweliad yn Saesneg (yn hytrach nag yn Gymraeg) gan mai medrusrwydd wrth ddefnyddio Saesneg (ymhlith pethau eraill) oedd yr arolwg wedi ei gynllunio i'w asesu.

7. Dylid nodi, o fewn unrhyw adran o'r holiadur, pe bai atebwr yn rhoi tri ateb anghywir o'r bron, fod y cyfwelydd wedi mynd ymlaen i'r adran nesaf yn hytrach na dal ati i holi cwestiynau yn yr adran oedd yn achosi anhawster.

Nodyn methodolegol

8. Cwblhawyd cyfanswm o 2,853 o gyfweliadau, gyda gwaith maes yn cael ei ymestyn dros y cyfnod 20fed o Fedi hyd at yr 2il o Ragfyr 1995. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata defnyddiol ar gyfer ilythrennedd (2828) a rhifogrwydd (2061).

Dull gweithredu pwysoli a sampl a gyflawnwyd

9. Gorsamplwyd y grŵp oedran ieuengaf, 16 i 24, yn fwriadol ar draul atebwyr eraill. Roedd hi felly yn angenrheidiol er budd dibynadwyaeth ystadegol i bwysoli'r data wrth iddo gael ei dablu i ddychwelyd pob grŵp oedran i'w drawiad cywir o fewn y sampl cyfan.

10. Yn ychwanegol, fe'i hystyriwyd yn ddymunol i grosio'r wybodaeth gyfansymio lefelau poblogaeth ac ymgorfforwyd hyn o fewn y dull gweithredu pwysoli. Roedd hyn yn golygu defnyddio matrics 80 cell (pum grŵp oedran o fewn rhyw o fewn sir), gyda ffactorau pwysoli wedi eu hamcangyfrif drwy gyfeirio at amcangyfrifon *OPCS* canol blwyddyn (1994) diweddaraf y boblogaeth breswyl yng Nghymru.

11. Felly, groswyd y sampl cyfan o 2,853 a gyflawnwyd i 1,803,600 yn cynrychioli'r nifer amcangyfrifedig o drigolion Cymreig rhwng 16 a 64 yng nghanol 1994.